ADDYSG FFILM

CANLLAWIAU 2018-20

www.ffilmcymruwales.com

ffilm CYMRU WALES

CYFLWYNIAD

Mae Ffilm Cymru Wales yn parhau i gefnogi a hwyluso prosiectau sy'n datblygu gwylio ffilm, dysgu am ffilm a deall ffilm. Mae cynnal addysg ffilm yn llwyddiannus yn arwain at gymhwysiad ymarferol drwy greu neu gynhyrchu cynnwys y defnyddiwr ar gyfer gwahanol lwyfannau gan gynnwys llwyfannau digidol. Dros y flwyddyn ariannol byddwn yn cefnogi prosiectau gyda ffocws penodol ar feysydd sy'n cael eu hystyried i fod yn ddiwylliannol dlawd. Gall hyn cynnwys y rhai sydd wedi eu hynysu'n gymdeithasol/wledig sydd angen adfywio economaidd a'r rhai sy'n brin o adnoddau neu gyfleoedd diwylliannol o ganlyniad i allgáu cymdeithasol.

Mae dau linyn ariannu ar gael ar gyfer ceisiadau yn 2017/18, Cyllid Prosiect a Chyllid Cydweithio. Bydd y canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â phwrpas pob llinyn, pwy sy'n gymwys i ymgeisio a sut i ymgeisio.

NODAU

Mae nodau penodol Ffilm Cymru Wales ar gyfer Addysg Ffilm fel a ganlyn:

- Cefnogi datblygu adnoddau ymarferol, adnoddau ar gyfer yr athro ac adnoddau perthnasol i'r cwricwlwm y gellir eu defnyddio ar draws y cwricwlwm, wedi eu targedu ar gyfer pob un o'r Cyfnodau Allweddol ac mewn partneriaeth â chynnig addysg y BFI drwy 'Into Film'.
- Cefnogi prosiectau sy'n gwella llwyfannau dysgu digidol yn cynnwys gweithdai gemau i bobl ifanc, defnyddio sgiliau ffilm ac animeiddio i gefnogi datblygu 'Apps' a thrwy adnoddau ffilm ar gyfer hyfforddiant i athrawon a chyflenwi'r cwricwlwm.
- Cefnogi cyfleoedd hygyrch ar gyfer addysg ffilm mewn ardaloedd yng Nghymru lle nad oes llawer neu ddim darpariaeth celfyddydau a ffilm, neu'r ardaloedd hynny sy'n cael eu cydnabod fel rhai mewn tlodi diwylliannol.
- Cefnogi prosiectau sy'n helpu pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol a chyfrifol mewn addysg a hyfforddiant, gan gyfrannu i fywyd eu cymunedau.
- Cau'r bwlch rhwng ardaloedd breintiedig a difreintiedig Cymru, fel gall cymunedau sydd, fel arall, wedi eu datgyweddu ac wedi eu hamddifadu'n ddiwylliannol gael profiad a bod yn rhan o'r diwylliant ffilm, mewn modd sy'n berthnasol ac yn cefnogi dysgu pellach.
- Cefnogi prosiectau, adnoddau a/neu sgiliau y gellir eu cynnal ar ôl cyfnod y buddsoddiad, gyda'r potensial i greu effaith hir dymor yn y cymunedau â'r anghenion mwyaf (yn economaidd ac o ran darpariaeth ddiwyllianol, dysgu gydol oes a datblygu sgiliau).
- Cefnogi Dysgu Gydol Oes a chyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol sy'n cynnwys llwybrau cefnogol i ddysgu achrededig ac addysg bellach.

AMCANION

Mae Ffilm Cymru Wales yn anelu i ymestyn ein buddsoddiad ymhellach na chyflenwi llythrennedd ffilm, ei ymestyn i bortffolio ehangach o lythrennedd cyfryngol a sgiliau digidol, lle gellir canfod rhagor o gyfleoedd ar gyfer aml-lwyfannau a llwyfannau digidol. I gyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Ymestyn ein blaenoriaethau cyllido ac ariannu prosiectau sy'n mynd ymhellach na'r cynnig ar gyfer 5 – 19 oed, i gynnwys Dysgu Gydol Oes, ymglymiad cymunedol a rhaglenni cyfranogiad a gweithgaredd ôl-16 wedi eu hanelu at rai heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Cynnig canllawiau strategol a darpariaeth gyllid i gefnogi a datblygu gwaith y Rhwydwaith Addysg Ffilm.
- Gwella sefydlogrwydd cwmnïau addysg ffilm a'u cefnogi i gynyddu cydweithio a chodi arian ar y cyd, yn arbennig ar gyfer symiau mwy lle gellir clustnodi effaith yn y tymor hwy.
- Darparu cyngor, gwybodaeth a rhaglenni wedi eu teilwra i ymarferwyr addysg ffilm ar draws Cymru, gyda ffocws penodol ar ardaloedd gwledig ac ynysig neu ardaloedd o Gymru.
- Cynorthwyo ymarferwyr i weithio mewn partneriaeth gyda datblygwyr llwyfannau eraill megis gemau, artistiaid, animeiddwyr, dylunwyr a chrewyr Apps i ddatblygu ymateb integredig i ffilm a chyfleoedd addysg y cyfryngau.
- Cynyddu argaeledd adnoddau addysgu a dysgu ffilm/cyfryngau addas ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd y cwricwlwm a'r Cyfnodau Allweddol ar lwyfannau'r gwahanol gyfryngau ar sail ymchwil y sector addysg.
- Cefnogi ymarferwyr i gydweithio i gael cyllid ychwanegol drwy wneud cais i Ymddiriedolaethau a Sefydliadau mwy eu maint i fod yn bartneriaid a all weithio ar draws Cymru gyfan mewn modd cynaliadwy.
- Cynorthwyo cwmnïau addysg Ffilm a'r Cyfryngau sy'n dangos arferion da a'r potensial i ddatblygu meysydd gwaith penodol gan gynnwys adnoddau, hyfforddi'r hyfforddwyr ac ymchwil i effaith addysg ffilm ar ymglymu â'r cwricwlwm.
- Datblygu dulliau cyson ar gyfer tracio pob prosiect addysg sy'n tystio i rôl ffilm mewn datblygiad dysgu, adfywiad cymunedol a chydlyniad cymdeithasol ac yn arbennig cyfraniad ffilm i ddatblygu llythrennedd ar draws y Cyfnodau Allweddol.
- Ar gyfer Blaenoriaethau Addysg Ffilm Genedlaethol gweler cynllun Film Forever ar gyfer 2012-2017 ac ymgynghoriad BFI 2022 www.bfi.org.uk/about-bfi/policy-strategy/film-forever http://www.bfi.org.uk/2022/

Y CYLLID SYDD AR GAEL

Mae Cyllid Prosiect a Chyllid Cydweithio ar gael i geisiadau sy'n cydfynd â'n hamcanion a'n nodau strategol sydd wedi eu rhestru uchod.

ARIAN I BROSIECTAU

Mae £32,500 ar gael ar gyfer cyllido prosiectau ffilm. Derbynnir ceisiadau ddwywaith y flwyddyn drwy ddwy rownd gyllido ar gyfer mentrau addysgol ffurfiol ac anffurfiol (ar sail y cwricwlwm neu heb fod yn seiliedig ar y cwricwlwm). Gallai prosiectau olygu gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at 19 oed, neu gynnig gweithgareddau lle mae cymunedau yn cymryd rhan ac addysg gydol oes. Gallai hyn olygu gweithio gyda phobl ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu, pobl hŷn neu bobl heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Gall prosiectau weithio ar draws ystod o lwyfannau cyflenwi yn cynnwys canolfannau arddangos, ysgolion, digwyddiadau arbennig ac mewn cymunedau yn ogystal ag ar-lein, ffrydio'r we, gemau, DVD, datblygu App neu lwyfannau digidol eraill.

ARIAN AR GYFER CYDWEITHIO

Yn 2018/2019, mae ffilm Cymru yn cynnig cyfanswm o £10,000 ar gyfer ceisiadau gan bartneriaethau yn seiliedig ar themâu addysgol ffilm nodwedd a nodwyd ar lechen gynhyrchu ffilm Cymru. Ffilm Cymru yn cyhoeddi teitl y ffilm nodwedd yn ystod blwyddyn ariannol 2018/2019, ynghyd â chyfres o amcanion prosiect pwrpasol a fydd yn sail i bob cais. Ffilm Cymru fydd yn pennu'r amcanion hyn a byddant yn dod o themâu a nodwyd yn y ffilm a fydd yn sail i gwmpas y gwaith addysg.

Fel o'r blaen, mae angen i bob cais nodi rhestr o sefydliadau partner a fydd yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion cyffredin y prosiect. Gallai'r math o sefydliadau partner gynnwys:

- Ymarferwyr addysg ffilm annibynnol
- Sefydliadau addysg
- Elusennau neu sefydliadau eraill y trydydd sector
- Cyrff addysg cenedlaethol
- Lleoliadau arddangos
- Gweithwyr ieuenctid/gwasanaethau cymorth

Gan mai cronfa gydweithredol yw hon, bydd yn rhaid i bob cais fod â dadansoddiad clir o swyddogaethau pob sefydliad partner a bydd ganddynt uchelgais i rannu sgiliau a fydd yn ymwreiddio addysg ffilm ymhellach yn y sector. Mae'n rhaid i geisiadau i'r gronfa hon ddangos tystiolaeth o gyflawni ar y cyd, dulliau newydd o gydweithio a chyfnewid sgiliau cyflwyno addysg ffilm. Bydd gan sefydliadau cymwys hanes sylweddol o ran addysg ffilm a'r cyfryngau a thrwy gyflawni cyfranogiad cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu ddifreintiedig.

CYNGOR A CHYMORTH

Lle bynnag posibl, bydd Ffilm Cymru Wales yn cynnig cyngor prosiect-benodol i sefydliadau cyn gwneud cais. Os ydy'r cynnig yn ei ddyddiau cynnar, ond mae'n delio neu'n debygol o ddelio ag Amcanion a Nodau Ffilm Cymru Wales, byddwn yn cynnig cyngor a help i gynyddu'ch siawns o dderbyn arian. Sylwer na allwn, oherwydd prysurdeb a gallu gynnig y gwasanaeth hwn bob amser, ond lle bo'n bosibl byddwn yn rhoi cyfarwyddyd i chi ar eich cais a darparu adborth ar ôl i'ch cais gael ei asesu.

CYMHWYSTER

Bydd y cronfeydd addysg ffilm yn darparu cymorth ariannol ar gyfer mentrau addysg ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer cyflenwyr addysg ffilm a'r cyfryngau a allai gynnwys:

- Lleoliadau arddangos
- Cymdeithasau ffilm
- Sefydliadau addysg
- Digwyddiadau addysg (cynadleddau /digwyddiadau hyfforddi)
- Digwyddiadau Sinema Naid (Pop up) (gyda rhaglen addysg berthnasol sy'n cwrdd â'n hamcanion cyllido h.y. pecyn adnoddau / rhaglen gweithdy / digwyddiad ysgol)
- Grwpiau cymunedol
- Sefydliadau addysg (megis CBAC neu Awdurdod Addysg y Gweithwyr)
- Ymarferwyr addysg (Gweithwyr ieuenctid / Arweinwyr E3 / Arweinwyr Cymunedau ac Addysg Oedolion)
- Clybiau ieuenctid, Canolfannau Dysgu Gydol Oes, Cartrefi gofal, Rhaglenni Celfyddydau Cymunedol a rhaglenni ymglymiad cymunedol eraill
- Gwyliau Ffilm

MEINI PRAWF HANFODOL

Rhaid bod pob prosiect yn digwydd yng Nghymru gyda'r potensial o gynorthwyo datblygiad cynulleidfaoedd yng Nghymru ar gyfer ffilm. Rhaid bod pob prosiect yn cyfrannu at hybu ffilm a llythrennedd cyfryngol ymhlith cyfranogwyr yng Nghymru.

Anogir ymgeiswyr sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig, ynysig neu ddifreintiedig neu gyda grwpiau wedi'u hynysu'n gymdeithasol megis pobl ag anabledd neu anghenion addysgol arbennig neu'r rhai sy'n arwain prosiect Cymraeg ei iaith/dwyieithog i wneud cais. Os bydd sinema, cymdeithas ffilmiau, gŵyl ffilmiau neu unrhyw endid arall yn dymuno gwneud cais ond heb swyddog addysg yn gweithio iddyn nhw, byddwn yn annog a chynghori eu bod yn cydweithio gydag ymarferwyr trydydd parti i'w helpu i gyflenwi'r prosiect. Mae Ffilm Cymru Wales yn sylweddoli'r pwysau ar Adnoddau Dynol ac felly'n annog ymgeiswyr i gael Rheolwr Prosiect neu bersonél ychwanegol i hwyluso pethau fel rhan o'r darpar gyllideb.

Ymhlith y costau cymwys mae cynhyrchu a dyblygu deunyddiau, costau teithio a chynhaliaeth, marchnata a dadansoddiad. Gellir cynnwys cost prynu deunyddiau neu rentu cyfarpar fel rhan o brosiect ehangach; fodd bynnag, ni all Ffilm Cymru Wales ariannu ceisiadau am gyfalaf i brynu offer newydd. Ni ystyrir ariannu'r cyfryw geisiadau.

Mae gan Ffilm Cymru Wales ffocws arbennig ar gyfrwng ffilm ac mae'n annog ymglymiad arddangoswyr er mwyn i ffilmiau gael eu dangos mewn sinema neu mewn amgylchedd theatraidd (megis canolfan gymunedol/dangosiadau mewn ysgolion neu sinema naid) lle bynnag posibl. Yn yr un modd rydyn ni am annog dealltwriaeth ehangach o lythrennedd clywedol a chymwysiadau lle ysgogir llythrennedd ffilm drwy lwyfannau digidol yn ogystal. Rydyn ni hefyd yn annog ymglymiad ymarferwyr a chynrychiolwyr y diwydiant ffilm lle bynnag posibl er mwyn ysgogi diddordeb a chyfleu profiad uniongyrchol.

FFRAMWAITH ASESU

Wrth ddethol prosiectau ystyrir y meini prawf canlynol gyda'r ddau gais prosiect:

- Y potensial i wella llythrennedd ffilm a'r cyfryngau a chodi archwaeth am ffilmiau arbenigol ymhlith y grŵp targed;
- Amcanion clir a mesuradwy sy'n cwrdd â chanllawiau Ffilm Cymru Wales ar gyfer addysg ffilm a'r cyfryngau;
- Achos clir bod yr ymgeisydd yn gwneud cyfraniad strategol i ddatblygiad ffilm a llythrennedd cyfryngol ledled Cymru;
- Casglu data yn gywir (data ansoddol a meintiol)
- Dichonoldeb prosiect o ran cyllideb ac amserlen;
- Cynnwys cysylltiadau cydweithiol wrth gyflenwi prosiect, lle bo'n berthnasol a lle gellir ychwanegu 'gwerth ychwanegol';
- Arferion da o ran cyfleoedd cyfartal a mynediad;
- Holl waith papur y cwmni wedi'i gynnwys, lle bo'n briodol.

Y POLISI AR DDIOGELU PLANT AC OEDOLION AGORED I NIWED

Pan fyddwch yn gwneud cais am gyllid ar gyfer Prosiect Addysg Ffilm, rhaid i chi wneud y canlynol:

- Cyflwyno copïau o bolisi priodol ar ddiogelu plant neu oedolion agored i niwed (yn dibynnu ar y darpar fuddiolwyr) i Ffilm Cymru Wales,
- Dangos bod gennych broses gadarn a thrylwyr ar gyfer recriwtio a dethol staff cyflogedig, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio gyda phlant a/neu'n goruchwylio plant neu oedolion agored i niwed. Dylai hyn gynnwys Datgelu a Gwahardd.
- Cynnwys staffio cynllunedig ar gyfer y prosiect a nodi'r nifer o blant a fydd gan bob goruchwylydd.
- Dylid cynnal gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) fel arfer da os mai dyletswyddau arferol staff prosiect neu wirfoddolwyr ydy gofalu am blant, eu hyfforddi, eu goruchwylio neu fod yn gyfan gwbl gyfrifol amdanyn nhw a/neu'n cynnwys cyswllt â phlant heb oruchwyliaeth;*
- Dylid cyflwyno tystiolaeth o'r gwiriadau hyn lle gofynnir amdanyn nhw a gwybodaeth am ddethol y rhai sy'n goruchwylio plant neu oedolion agored i niwed cyn cychwyn y prosiect a chyn tynnu unrhyw gyllid i lawr.

Am ragor o wybodaeth ewch i: https://www.disclosureservices.com/our-services/criminal-records-bureau-check.asp

*Corff Cofrestredig dan Ambarel y CRB ydy Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (The Wales Council for Voluntary Action) a all helpu sefydliadau gyda gwybodaeth wrth recriwtio staff gwirfoddol a chyflogedig. Mae gwefan Uned Cofnodion Troseddol y WCVA yn cynnwys cyfarwyddyd pellach ar wiriadau ar gyfer sefydliadau: http://www.wcva-cru.org.uk

CYNALIADWYEDD

Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i bob ffurf o gynaliadwyedd. Mae ein diffiniad yn ymestyn tu hwnt i gynaliadwyedd amgylcheddol, i gwmpasu'r ymrwymiad i ddatblygu system-eco o gwmnïau o fewn diwydiant ffilm Cymru.

O ran yr amgylchedd, rydyn ni'n awgrymu ac yn cefnogi pob dull i ostwng yr effaith ar yr amgylchedd wrth ddatblygu a chynhyrchu ffilmiau gan gynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i geisio sicrhau dulliau o leihau pob math o wastraff, allyriadau carbon a gweithgareddau eraill sy'n effeithio ar adnoddau'r blaned.

Rydyn ni hefyd yn gweithio i greu cwmnïau cynaliadwy yn y sector ffilm yng Nghymru drwy gynorthwyo'u twf a'u sefydlu a'u helpu i feithrin rhwydweithiau yn y diwydiant lle gallan nhw gyd-ddysgu a datblygu cyfleoedd a fydd o fudd i bawb fel ei gilydd. Rydyn ni'n annog i bob ymgeisydd ystyried cynaliadwyedd yn gymdeithasol , yn amgylcheddol ac yn economaidd.

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A MONITRO CYNWYSOLDEB

Mae ffilm Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo sector ffilmiau cynaliadwy a diwylliant ffilm sy'n gweithio i bawb ledled Cymru.

Credwn fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn hanfodol er mwyn creu straeon pwerus a busnes creadigol cynaliadwy. Ategir y gred hon gan gorff cynyddol o dystiolaeth, sy'n dangos bod cwmnïau sy'n cofleidio EDI yn fwy llwyddiannus yn greadigol ac yn economaidd, gan gynhyrchu cynnwys gwreiddiol ac arloesol ac ehangu eu cynulleidfaoedd a'u sylfaen cwsmeriaid. Yr ydym o ddifrif ynghylch ein rôl ganolog fel buddsoddwr, Asiantaeth ddatblygu ac eiriolwr dros unigolion a chwmnïau o Gymru neu yng Nghymru sy'n ymwneud â'r sector ffilm neu'n anelu at wneud hynny, ac yr ydym yn cydnabod bod rhwystrau i ffilm gyfartal, amrywiol a chynhwysol Diwydiant.

Am y rheswm hwn, rydym wedi cyflwyno cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i lywio ein gweithgareddau ein hunain a'r rhai sy'n derbyn ein cyllid. Mae'r cynllun yn dangos ein hymrwymiad i dryloywder ac yn adlewyrchu ein cred yng ngwerth rhannu data, gwybodaeth a rhwydweithiau.

Mae ein cynllun gweithredu edi yn cyd-fynd â'n cynllun strategol ar gyfer 2018-2022, yn ogystal â'n cynllun iaith Gymraeg a'n cod ymddygiad sydd i gyd i'w gweld ar ein gwefan.

Er mwyn cydymffurfio â'n cynllun gweithredu EDI, gofynnir i chi gyflwyno gwybodaeth drwy holiadur ar-lein a fydd yn cipio cydraddoldeb ac yn monitro data amrywiaeth ar ôl i chi gyflwyno ffurflen gais. Noder na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn gyflawn hyd nes y byddwch wedi cyflwyno'r arolwg, fodd bynnag, ni fydd y data hwn yn llywio unrhyw benderfyniadau ariannu. Dileu brawddeg drwy gipio'r data hwn, byddwn yn gallu deall mwy am eich sefydliad. Bydd yn ein helpu i gydymffurfio â'r gyfraith, yn sicrhau bod ein polisïau a'n harferion yn deg ac yn effeithiol, ac yn eu gwella lle bynnag y gallwn. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn ddienw ac yn gwbl gyfrinachol a'i phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a safonau newydd y GDPR ar 25 Mai 2018.

MAGNIFIER

ae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i wneud y gorau o syniadau da ac felly maen nhw wedi lansio dull systematig o'r enw 'Magnifier' fydd yn weithredol drwy'r holl gyfundrefn.

Nod y dull hwn ydy cymell y gweithlu i fod yn fwy cynhwysol (ar draws meysydd datblygu ffilm, cynhyrchu, addysg ac arddangos) gan gynhyrchu cynnwys sy'n berthnasol ac atyniadol i amrediad eang o gynulleidfaoedd. Gallai hyn gynnwys gemau, cyhoeddiadau, cymwysiadau 'apps', addasiadau llwyfan a darlledu a deunyddiau addysgol.

O dro i dro, bydd Ffilm Cymru Wales yn gwahodd aelodau o'r Rhwydwaith Addysg Ffilm (Film Education Network) i fynychu ymarferion dysgu ar y cyd, trafodaethau panel a grwpiau rhwydweithio. Caiff yr achlysuron 'Magnifier' hyn eu creu gyda'r bwriad o ddatblygu cysylltiadau rhwng gwneuthurwyr ffilmiau yng Nghymru gydag Ymarferwyr Addysg Ffilm yn gynnar yn y broses o greu eu ffilmiau.

Am ragor o wybodaeth, gweler canllawiau 'Magnifier.'

Y BROSES YMGEISIO

Bydd ffilm Cymru yn derbyn ceisiadau am gyllid prosiect mewn dwy rownd drwy gydol y flwyddyn ariannol, a bydd ceisiadau am gyllid cydweithredu yn cael eu cyflwyno mewn un rownd. Caiff y dyddiadau cau ar gyfer y ddwy gronfa eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn drwy ein gwefan.

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau a chyflwyno ffurflen gais ar gyfer Cyllid Prosiect a Chyllid Cydweithio y gellir ei lawrlwytho o'r wefan a'i hanfon ar ffurf dogfen Word ddigidol.

Rhaid anfon ffurflenni cais wedi eu cwblhau drwy e-bost i education@ffilmcymruwales.com. Ni fydd ffurflenni cais a anfonir i unrhyw gyfeiriadau e-bost eraill yn cael eu derbyn na'u hystyried ar gyfer cyllid.

Gallwch gysylltu â Ffilm Cymru Wales os byddai'n well gennych i gopi caled o'r ffurflen gais hon gael ei anfon ichi. Yn yr un modd gallwch drefnu bod eich ffurflen gais yn cael ei hanfon drwy'r post os nad yw'n hawdd ichi gael mynediad i'r rhyngrwyd. Cysylltwch â Ffilm Cymru Wales i wneud y trefniadau hyn gyda'r Tîm Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio.

Rhaid cyflwyno ceisiadau cyn dyddiad cau pob rownd gyllido o leiaf chwe wythnos cyn y darpar ddyddiad cychwyn. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir lai na chwe wythnos ymlaen llaw eu hystyried.

Cyhoeddir y dyddiadau cau ar wefan Ffilm Cymru Wales.

PENDERFYNIADAU CYLLIDO

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan y Prif Weithredwr (gyda'r Cadeirydd a'r is-gadeirydd yn cael eu galw pan fo hynny'n briodol) a'r gynulleidfa, y rheolwr addysg, a chymorth gan y cydlynydd cynulleidfaoedd, addysg ac adfywio.

Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ac yn cael eu cyfleu yn ysgrifenedig o fewn mis i gyfarfod y panel. Gallai Ffilm Cymru Wales gynnig llai na'r swm a nodwyd ar y cais; fodd bynnag ni fydd y gostyngiad hwn yn llai na 75% o'r arian y gofynnwyd amdano.

ADBORTH

Fel arfer, bydd Ffilm Cymru Wales yn ceisio ymateb i'ch cais o fewn 15 diwrnod gwaith (3 wythnos). O na chlywch gennym yn ystod yr adeg hon, cysylltwch â ni er mwyn sicrhau ein bod wedi derbyn eich cais. Cyfrifoldeb y trefnydd ydy sicrhau bod eu cais yn ein cyrraedd ar amser. Ni all Ffilm Cymru Wales fod yn gyfrifol am geisiadau sydd ddim yn cyrraedd.

Dyrennir cyllid yn ôl disgresiwn Ffilm Cymru Wales yn unol â'r canllawiau hyn, ac ni ddylai ymgeiswyr gymryd yn ganiataol y byddan nhw'n cael cynnig cyllid. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon e-bost i gadarnhau ein cynnig o fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn cais dilys. Mae Ffilm Cymru Wales yn cadw'r hawl i wrthod cais os na fydd yn cwrdd â'r meini prawf. Os na chewch gynnig cyllid byddwn yn eich hysbysu cyn gynted â phosibl. Yn y lle cyntaf, byddwn yn anfon e-bost, felly gwnewch yn siŵr bod eich cyfeiriad e-bost yn gywir a chofiwch edrych ar eich mewnflwch yn gyson.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus a chynigir dyfarniad, telir mewn dau randaliad. Fe arfer, telir 75% wrth lofnodi'r cytundeb a 25% ar ôl cyflenwi'r prosiect a chyflwyno adroddiad cwblhau boddhaol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, rhaid i chi gydnabod cymorth Ffilm Cymru Wales ymhob deunydd cyhoeddusrwydd (gan gynnwys pamffledi, gwefan a datganiadau i'r wasg) cyn cychwyn y prosiect ac yn cyd-daro gyda hynny yn ogystal ag yn bersonol. Dylid gwahodd aelod o'r Tîm Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio i arsylwi'r prosiect 'in situ'. Darperir telerau ac amodau o fewn y cytundeb cyllido.

DYFARNIADAU AC AMODAU

Ariennir hyd at 75% o gost gyffredinol unrhyw brosiect. Bydd angen i bob prosiect gael o leiaf 25% o arian cyfatebol ar ffurf nwyddau pan fo gwerth ariannol (megis parcio am ddim mewn lleoliad). Ni fydd Ffilm Cymru Wales yn derbyn ceisiadau am symiau yn uwch na £15,000 y prosiect gydag uchafswm o £20,000 i unrhyw ddarparwr o fewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir darparu dyfarniadau pellach yn ôl disgresiwn Ffilm Cymru Wales.

Bydd sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid cydweithio yn dal i fod yn gymwys i wneud cais am gyllid prosiect o fewn y ddwy rownd. Bydd y dyfarniad ar ffurf cymorth grant na ellir ei ad-dalu.

Rhaid i ymgeiswyr a darparwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu oedolion agored i niwed ddarparu tystiolaeth o Bolisi Diogelu Plant neu Bolisi Oedolion Agored i Niwed a rhaid cydymffurfio â gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn i unrhyw arian gael ei ryddhau.

Rhaid cyflwyno'r holl ddeunydd addysgol a ddatblygwyd ar gyfer unrhyw brosiect penodol i Ffilm Cymru Wales ei gadw ar fas data canolog at ddefnydd darpar ddarparwyr addysg fel bo'n briodol.

Mae Ffilm Cymru Wales yn gofyn am ddata hanfodol y prosiect – nifer a demograffeg cyfranogwyr, grwpiau – y data i'w gasglu a'i gyflwyno fel bo'n berthnasol. Bydd rhaid i Ffilm Cymru Wales gymeradwyo pob trefniant cyllido ac unrhyw newid sylweddol i'r prosiect. Gallai'r cyllid gael ei dynnu nôl neu ei ostwng oherwydd y cyfryw newidiadau.

ADRODD YN ÔL

Fel rhan o'ch cytundeb gyda Ffilm Cymru Wales, bydd gofyn i chi gyflwyno adroddiad cwblhau byr, ar fformat y bydd Ffilm Cymru Wales wedi ei darparu ar eich cyfer.

Hwn ydy'r templed safonol ar gyfer adrodd a gwerthuso prosiectau addysgol, gall Ffilm Cymru Wales addasu'r templed hwn ar gyfer prosiectau mwy penodol os oes angen:

- Ffurflen gwerthuso prosiect addysgol yn cynnwys;
    - Naratif ar ôl y prosiect yn rhoi manylion am effaith yr amcanion ar y cyfranogwyr yn ystod ac ar ôl y prosiect.
    - Nifer o bobl a gymerodd ran yn y prosiect gan gynnwys eu hoedran
    - Nifer o oriau a dreuliodd y cyfranogwyr yn unigolion ac ar y cyd ar weithgaredd addysgol.
    - Manylion am unrhyw weithgaredd addysgol y mae cymorth grant Ffilm Cymru Wales wedi'i gefnogi.
    - Adroddiadau a'r sylw yn y wasg (crynodeb o'r sylw a gafwyd yn y wasg)
    - Manylion am unrhyw weithgaredd addysgol y mae cymorth grant Ffilm Cymru Wales wedi'i gefnogi.
- Adroddiad astudiaeth achos gan ddefnyddio'r templed a ddarparwyd gan ffilm Cymru
- Cyllideb incwm a gwariant fanwl.
- Casglu data cydraddoldeb, amrywiaeth & cynwysoldeb gan Aelodau'r tîm a chyfranogwyr
- Delweddau wedi'u dewis o'ch prosiect gyda hawliau wedi'u clirio i'w defnyddio ar wefan, Cylchlythyr, adroddiadau cwmnïau ac ati.
- Copïau o'r holl ffilmiau a gynhyrchir gyda chaniatâd er mwyn i ffilm Cymru gael eu defnyddio ar eu gwefan ac ar gyfer dibenion addysgol yn y dyfodol.
- Copïau o unrhyw adnoddau addysg ffilm a grëwyd, ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau gweithdy i ffilm Cymru.
- Copïau o unrhyw waith ymchwil a wnaed ar ddefnyddwyr a chanlyniadau sy'n deillio o weithgarwch a ariennir gan ffilm Cymru.

Dim ond ar ôl i Ffilm Cymru Wales dderbyn y wybodaeth uchod, fel y ceir hyn yn eich cytundeb cyllido, y telir y taliad terfynol.

MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu os hoffech chi drafod unrhyw agwedd o'ch prosiect cyn gwneud cais, yn y lle cyntaf, cysylltwch â:

Natasha Wilson (cynulleidfa, addysg a chydlynydd adfywio)
ar 02921 679 369 neu drwy e-bost Natasha@ffilmcymruwales.com

Nicola Munday (cynulleidfa, addysg, rheolwr yr adfywio)
ar 02920 766 931 neu Nicola@ffilmcymruwales.com.

ffilm
CYMRU WALES

UNIT 6
TRAMSHED TECH
PENDYRIS STREET
CARDIFF
CF11 6BH

+44(0)2921 679369
enquiries@ffilmcymruwales.com
www.ffilmcymruwales.com

Awarding funds from The National Lottery®
BFI Film Forever
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government